CYFARFOD	**PWYLLGOR PENSIYNAU**
DYDDIAD	**23 TACHWEDD 2026**
TEITL	**CYFRIFON TERFYNOL CRONFA BENSIWN GWYNEDD AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2026 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL**
PWRPAS	**Cyflwyno –** • **Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;** • **Adroddiad 'ISA260' Archwilio Cymru;** • **Llythyr Sylwadau**
ARGYMHELLIAD	**Ystyried adroddiad yr archwilydd, cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon ac awdurdodi'r Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r llythyr.**
SWYDDOGION PERTHNASOL	**Dewi Morgan, Pennaeth Cyllid** **Delyth Jones-Thomas, Rheolwr Buddsoddi**

---

1. CYFRIFON 2025/26

Mae Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd 2025/26 (ôl- archwiliad) wedi'u amgau yma ac yn rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Gronfa yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2026.

2. ARCHWILIAD GAN ARCHWILIO CYMRU

Mae'r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a chyflwynir yma adroddiad 'ISA260' ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar ddarganfyddiadau yr archwiliad.

3. CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL Y GRONFA BENSIWN

Mae'r Datganiad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd hefyd yn cael ei gyflwyno i'r holl gyflogwyr yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gronfa Bensiwn am 1yp 23 Tachwedd 2026.

4. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor Pensiynau –

- Ystyried a cymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd ol-archwiliad ar gyfer 2025/26,
- Nodi'r adroddiad 'ISA 260' gan Archwilio Cymru, a derbyn sylwadau'r archwilwyr, a
- Awdurdodi'r Cadeirydd a s.151 (yn electroneg) i ardystio'r Llythyr Sylwadau ar ôl i'r Pwyllgor Pensiynau gymeradwyo'r uchod.